



Tynnu Lluniau Gyda Geiriau

Rwy'n gredwr mawr fod barddoni yn gweithio ar ei orau pan fydd y bardd (sef ti!) yn llwyddo i greu llun o'r geiriau mae'n eu rhoi ar bapur. Hynny yw, pan fydd rhywun yn darllen neu'n gwrando ar y gerdd yn cael ei datgan, bydd y geiriau wedi eu rhoi at ei gilydd gyda thechnegau sy'n creu lluniau a delweddau yn y meddwl.

Rhai o'r ffyrdd rydyn ni'n gallu tynnu lluniau gyda geiriau yw trwy ddefnyddio rhai o'r pethau canlynol, triciau os mynnwch, y mae beirdd yn eu defnyddio. Pethau fel Cyflythrennu, cymharu, personoli, trosi, odli a'r gair mawr...cyferbynnu (sef rhoi dau beth gwahanol i wrthdaro neu i fod gyferbyn â'i gilydd o fewn cerdd.)

Y prawf mwyaf o allu'r bardd (sef ti, cofia!) i dynnu lluniau gyda geiriau yw pan fydd yn portreadu person mewn cerdd. Hoffwn iti felly i feddwl am dy hun, neu am berson arall NAD yw'n enwog, person rwy't ti'n ei edmygu, gall fod yn aelod o'r teulu, ffrind, cymydog, athro neu athrawes, rhywun sydd wedi gwneud argraff arnat yn dy fywyd.

Wrth fynd ati i bortreadu'r person dan sylw, efallai y gall darllen y gerdd ganlynol fod o help. Rwyf wedi nodi mewn lliw coch bopeth sy'n cyfrannu at bortreadu sut fath o berson yw Gareth Sgwâr, cyfaill da imi ro'n i'n awyddus i ddiolch iddo am ei gymorth. Felly ysgrifennais gerdd ar ei gyfer gan dynnu ynghyd eiriau sy'n ymwneud â'u hoff beth yn y byd, sef potsian gydag offer a pheiriannau o bob math! Ond yna fe welwch erbyn diwedd y gerdd, fy mod i wedi cyfuno dau beth, sef yr eirfa yn ymwneud â thŵls a pheiriannau a'r peth pwysicaf am gymeriad Gareth, sef ei natur gymwynasgar, mae'n rhywun sydd wastad yn barod i helpu.

Fe welwch chi taw rhestr o drosiadau (*metaphors*) a geir yn y gerdd, lle mae'r offer mecanyddol yn adlewyrchu ei olwg a'i gymeriad. Yn amlwg, nid oes gan Gareth freichiau hydrolig go iawn! Ond trwy bersonoli, mae modd cymharu pethau difwyd gyda phobl.



Gareth Sgwâr

Jac codi baw o ddyn
â sbaner o wên,
breichiau heidrolig
a lori lawn o gymwynasau,
bwcedi o ddwylo
yn llawn anogaeth
a stîm rowlar i bob rhwystr.

Y mecanig â'r offer
i dynhau bolltau bywyd,
ail-dynhau'r sgrîws rhydd.
Y gwyliwr o forthwyliwr i'r hoelion
na ffindodd eu ffordd mewn.

Y galon sy'n ffrydio
olew, sy'n llyfnhau'r
mecanwaith sydd wastad
yn barod i helpu.

Cyn ichi fwrw ati i greu eich cerdd, dyma restr fach o bethau ichi feddwl amdany'n nhw:

- Beth yw gwaith neu brif ddiddordeb y person dan sylw?
- A oes modd ichi restru ar fap meddwl gymaint â phosib o eirfa yn ymwneud â'r gwaith neu brif ddiddordeb y person rydych yn ei bortreadu?
- Pa elfennau o gymeriad y person yn eich portread hoffech dynnu sylw atyn nhw? Ydy'r person yn amyneddgar, yn gwrando'n dda, yn hael, yn gymwynasgar, wastad yn gwenu, yn jôcar neu'n ddylanwad da mewn rhyw ffordd?
- Sut fath o gerdd hoffech ei sgwennu, un benrhydd (heb odlau na rheolau penodol) fel yr un uchod, cerdd ar fydr ac odl (cwpledi, tripledi, penillion telyn), soned, villanelle, cyfres o benillion haicw, neu ffurf arall ar gerdd?
- Sut mae'r gerdd yn dechrau ac yn bwysicach fyth, sut ydych chi'n bwriadu gorffen y gerdd?
- Beth yw'r neges hoffech i'r darllenwr ei gael o'r gerdd erbyn y diwedd?
- Ydy'r gerdd yn swnio'n dda? Mae'n bwysig fod cynnwys y gerdd yn gryf, ond hefyd dylai'r gerdd swnio yn dda i'r glust, wrth ei chyfansoddi, dywedwch linellau mas yn uchel. Ydy'r rhythm yn gweithio, oes yna gyffyrddiadau (ddim gormod!) o gyflythrennu?

Pob lwc! Bant â chi i bortreadu!



Villanelle a Limrig

Villanelle – Mesur (ystyr mesur yw siâp y penillion sy'n creu cerdd. Mae degau o fesurau gwahanol y gellir eu defnyddio i farddoni ac mae pob mesur yn cynnig ffordd wahanol o drin geiriau a chyfleu neges y bardd. Mae ambell fesur yn gweddu'n well i gerddi doniol ac ambell fesur yn well ar gyfer cerddi mwy dwys a difrifol.)

Hanes y Villanelle – Mae'r Villanelle yn dod o'r Eidal yn wreiddiol, lle roedd ffermwyr a phobol y wlad yn ei ddefnyddio fel mesur hawdd i'w chanu yn uchel wrth weithio'n y caeau, gan bod elfennau cryf o ail-adrodd yn y mesur. Ond mabwysiadwyd y mesur gan feirdd o Ffrainc rhai canrifoedd yn ôl ac fe ddaeth wedi hynny yn fesur poblogaidd mewn nifer o ieithoedd; o Eidaleg i Ffrangeg, Cymraeg a Saesneg.

Nodweddion y Mesur – Mae'r Villanelle, yn fy marn i a sawl un arall, yn fesur sy'n swnio'n bert iawn i'r glust ac yn ffordd o greu cerdd sy'n fwy cofiadwy na cherddi eraill, oherwydd yr ail-adrodd. Mae'n debyg o ran hyd llinellau (deg sillaf i bod llinell) i ffurf y Soned (fel a ddefnyddiai Shakespeare yn aml') ond lle ceir nifer o odlau gwahanol mewn soned, **dim ond dwy odl** sydd i'w glywed yn y Villanelle. Golyga'r ffaith hyn fod angen i'r bardd, cyn dechrau cyfansoddi Villanelle, fod yn sicr fod ganddo neu ganddi ddigon o eiriau posib i odli. Rhaid cael saith gair sydd ar **Odl A** a chwech gair sydd ar **Odl B**. Odl A yn y gerdd Aber-fan a Phontyberem yw 'wm' (geiriau acennog neu unsill) ac Odl B yw 'yd/ud' (mae 'y' ac 'u' yn odli gyda'i gilydd dan yr un sain).

Soniais uchod fod 10 sillaf ymhob llinell, ac mae'n dda trio cadw at y patrwm hwnnw. Ond er mwyn i'r mesur weithio fel y dylai, yn bwysicach na chael deg sillaf ymhob llinell (hynny yw, os ydy llinell yn 9 sill neu 11 sillaf, nid yw'n ddiwedd y byd, yn sicr peidiwch ag amrywio hyd y llinellau yn fwy na llai na 9 ac 11 sillaf.) rhaid cael **pedwar curiad** ymhob llinell. Mae curiadau llinell yn anoddach i'w hadnabod na sillafau mewn llinell, ond ystyriwch y llinell ganlynol:

'Mewn **cornel** o'r **Bont** lle mae'r **coed** yn **grwm**'

Mae curiadau'r llinell wedi cael eu nodi mewn coch. Dyma'r geiriau sy'n cario pwyslais yn y llinell, gallwch eu cymharu i'r pileri neu golofnau sydd yn dal pont o goncrit yn ei le. Heb y pileri, byddai'r bont yn dymchwel, ac yn yr un modd, heb y curiadau byddai rhythm y mesur yn dymchwel.

Felly wrth i chi greu eich Villanelle, **dywedwch bob llinell mas yn uchel** er mwyn gallu clywed y curiadau a sicrhau **nad** llinell tri churiad, neu linell 5 curiad yw hi.

Dyma linell arall:

Mae'n **brysur** o **hyd** yn **nhre'r** trych**filod**



Y PETH PWYSICAF I'W GOFIO – Llinellau ail-adroddus persain – GAN FOD DWY LINELL YN CAEL EU HAIL-ADRODD SAWL GWAITH YN Y GERDD, MAE ANGEN CANFOD CYFUNIAD O EIRIAU SY'N SWNIO YN BERT I'R GLUST. EFALLAI OSGOI GEIRIAU SY'N CYNNWYS LLAWER O GYTSEINIAID MWY CRAS A CHALED FEL 'CH', 'LL' AC 'S'. Ond eto, mater i'r unigolyn yw hi i ddweud beth sy'n swnio'n neis a beth sydd ddim.

Eich Her Chi: Llunio Villanelle ar y thema '**Pethau Prin**'. Mae'n thema digon eang i allu mynd ar ôl pob math o syniadau. **Ond** dewiswch un syniad neu ddelwedd bendant a dilyn hynny drwy gydol y gerdd. Peidiwch â phentyrru pob math o enghreifftiau o 'bethau prin' gan y bydd hynny yn arwain at flerwch, dryswch a gorgymhlethu. Ar ei orau, mae'r Villanelle fesur sy'n cuddio cymhlethdod drwy ymddangos yn syml i'r glust. Felly, meddyliwch, pa bethau sy'n brin yn ein byd? Efallai fod faint o weithiau rydyn ni'n ddiolchgar am bethau yn brin. Neu fath arbennig o fywyd gwyllt, neu ieithoedd yn y byd. Mae modd mynd i bob math o gyfeiriadau ac rwy'n sicr y byddwch yn creu campweithiau! Edrychaf ymlaen i ddarllen y gwaith a ddaw, maes o law. Os oes modd, byddai hefyd yn dda ichi recordio eich llais, neu wneud fideo o'r gerdd i'w rannu gyda'ch cyd-ddisgyblion ac athrawon. Dim ond y copïau ysgrifenedig y byddaf i eu hangen. Gallwch ystyried rannu'r recordiadau ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol, os ydy eich athrawon, rhieni neu warchodwyr yn rhoi caniatâd, wrth gwrs.

Isod ceir nodiadau ar strwythr neu siâp y villanelle. Darllenwch drwyddo, gwyliwch y fideo esboniadol gen i ac yn fwyaf defnyddiol, darllenwch neu wrandewch ar enghreifftiau o' cerddi er mwyn dod yn gyfarwydd â mesur y Villanelle.



Strwythr:

19 llinell, deg sillaf a phedwar curiad i bob llinell

6 pennill gyda thair llinell y mhenillion 1-5 a phedair llinell ym mhennill 6.

Dim ond dwy odl sydd drwyddi i gyd

Isod, mewn coch, fe welwch drefn y system ail-adrodd ym mesur y Villanelle. Mae'n swinio'n fwy cymhleth nag yw e mewn gwirionedd. Daw'r system yn fwy eglur wrth edrych ar enghreifftiau o'r mesur (sef cerddi 'Aber-fan a Phontyberem', 'Tre'r Trychfilod' a 'Do Not Go Gentle Into That Good Night').

Mae llinellau 1 a 3 ym mhennill 1 yn cael eu hail-adrodd yn y stod y gerdd yn y drefn ganlynol:

Ail adrodd Llinell 1(o bennill 1) ar ddiwedd pennill 2.

Ail adrodd llinell 3(o bennill 1) ar ddiwedd pennill 3

Ail adrodd llinell 1 ar ddiwedd pennill 4.

Ail-adrodd llinell 3 ar ddiwedd pennill 5.

Fe sylwch fod patrwm pennill 6, sef pennill ola'r gerdd yn wahanol. Yn y pennill olaf hwn, ceir pedair llinell. O fewn y pennill olaf mae llinell 1 ar odl A a llinell 2 ar Odl B. Yna defnyddir llinell 1 a 3 o bennill cyntaf y gerdd er mwyn gorffen y pennill olaf.



Limrig

Es â f'ymchwil mor bell â Bayeux
Ond ni ches ateb gan yr un *monsieur*,
Fe dyfodd yn *stench*,
Bu'n yffach o *wrench*,
Beth yw y *French* am *entrepreneur*?

Aneirin Karadog

Y Limrig (Limerick yn Saesneg): Mesur doniol yw'r Limrig ac er bod ambell un wedi ceisio creu cerddi dwys a difrifol ar fesur y limrig, aflwyddiannus yw'r arbrawf. Dylai limrigau fod yn cario neges ddoniol, jôc neu sefyllfa swreal. Mae'n fesur sy'n cynnwys rhythm sionc a phatrwm odli sy'n cynnig ei hun at ddoniolwch.

Mae'n siŵr y bydd rhythm a siâp y limrig yn gyfarwydd I rai ohonoch. Mae limrig fel arfer, ond ddim o reidrwydd, yn enwi lle a chymeriad yn y llinell gyntaf.

Felly eich her chi yw creu eich limrig doniol eich hunan gan gynnwys enw lle yn y llinell gyntaf. Dylai 'punchline' fod gennych erbyn y llinell olaf, neu dwist, tro yn y gynffon, neu ryw beth annisgwyl.

Fe sylwch hefyd fod ambell air neu ymadrodd Saesneg yn y limrigau uchod. Ychwanegu at naws ysgafn a doniol y erddi hyn mae'r geiriau Saesneg. Peidiwch â theimlo fod yn rhaid i chi gynnwys geiriau Saesneg yn eich limrig, ond ystyriwch a oes defnydd doniol i'r geiriau Saesneg yng nghyd-destun limrig Cymraeg.



Strwythr:

5 llinell,

8 neu 9 sillaf yn llinellau 1,2 a 5.

Tua 5 sillaf yn llinellau 3 a 4.

(nodaf 'tua' gan bod amrywiaeth o limrig i limrig – mae'n dibynnu os ydy'r glust yn meddwl fod y llinell yn swnio'n iawn ar sail y rhythm enwog 'da-da-da-da-da-da-da-da-da-da...')

Mae llinellau 1, 2 a 5 yn odli ar **Odl A** ([mewn lliw glas](#)) a llinellau 3 a 4 yn odli ar **Odl B** ([Mewn Lliw Coch](#)). Mae opsiwn i roi **Odl B** ar ganol llinell 5 hefyd, fel y gwelwch yn fy limrig i ('Entrepreneur').

Ffordd arall o ddisgrifio patrwm odli'r Limrig yw: AABBA (gydag opsiwn, fel y soniais, i ychwanegu odl B yng nghanol llinell 5.)

Eich Her Chi: Llunio limrig doniol sy'n cynnwys enw lle yn y llinell gyntaf. Ceisiwch feddwl, beth sy'n ddoniol a sut mae ei weithio mewn i limrig. Gall odlau achosi doniolwch, neu sefyllfa neu stori fod yn ddoniol. Dilynwch y patrwm odli gan gadw at rhythm y limrig, a mwynhewch! Gofalwch hefyd, os ydych chi'n dewis enw lle a rhoi'r lle hwnnw ar ddiwedd llinell 1 – Gofalwch hefyd fod digon o bethau yn odli gyda'r lle hwnnw. Mae'n syniad dechrau ar y diwedd a gweithio eich ffordd nôl i'r dechrau, wrth greu. Mae gwybod sut mae'r limrig yn gorffen wrth ei gyfansoddi yn debygol o'i wneud yn limrig doniolach a gwell.

Edrychaf ymlaen at lond trol o chwerthin wrth i chi limriga ('limriga' yw'r ferf am greu limrigau)!



Enghreiffiau o gerddi ar fesur y Villanelle

Aber-fan a Phontyberem

(claddwyd Dyfrig Hayes, 9 mlwydd oed, ym Mhontyberem)

Mewn cornel o'r Bont lle mae'r coed yn grwm
yng nghil llygaid ceir sy'n llifo drwy'r stryd,
fe gladdwyd un mab yn naear y cwm.

Aber-fan a'r Bont mewn galar ynghlwm,
dau le yn cwrdd fel dwy law'n dod ynghyd,
mewn cornel o'r Bont lle mae'r coed yn grwm.

Un wyneb mewn gwerau a'r rhuthr fel drwm
a'i guriadau'n gadael rhieni'n fud,
fe gladdwyd un mab yn naear y cwm.

Mae'r dail yn disgyn fel punnoedd pob swm,
rhieni'n gwylio dros fedd fel dros grud
mewn cornel o'r Bont lle mae'r coed yn grwm.

Dau le fel dau riant a'u galar trwm
yn wynt sy'n chwibanu a chodi cryd
ers claddu un mab yn naear y cwm.

Rhesi beddau gwynion ar y llethr llwm
yn sibrd hwiangerdd am warth i'r byd;
mewn cornel o'r Bont lle mae'r coed yn grwm
fe gladdwyd un mab yn naear y cwm.

16/10/16

Aneirin Karadog



Tre'r Trychfilod

Mae'n brysur o hyd yn nhre'r trychfilod
rhwng morgug, corrod a sawl pili pala
mewn byd mor fach sy'n fawr ei ryfeddod.

Dan ddeilen ar lawr mae trin a thrafod
rhwng neidir gantroed a buwch goch gota,
mae'n brysur bob dydd yn nhre'r trychfilod.

Rhaid gochel rhag y broga a'i dafod
sy'n hir, hir fel gwialen bysgota
mewn byd mor fach sy'n fawr ei ryfeddod.

Unwaith bob blwyddyn mae 'na eisteddfod,
rhaid paratoi'r cerddi a'r gymanfa,
mae'n brysur bob dydd yn nhre'r trychfilod.

Mae traed plant bach fel traed eliffantod,
cryna'r hen goedwig o dan y dyrfa
mewn byd mor fach sy'n fawr ei ryfeddod.

Pan alwi di draw fe gei di syndod,
gam wrth gam, troedia'n ofalus, cofia.
mae'n brysur bob dydd yn nhre'r trychfilod
mewn byd mor fach sy'n fawr ei ryfeddod.

Aneirin Karadog



Do not go gentle into that good night

Dylan Thomas - 1914-1953

Do not go gentle into that good night,
Old age should burn and rave at close of day;
Rage, rage against the dying of the light.

Though wise men at their end know dark is right,
Because their words had forked no lightning they
Do not go gentle into that good night.

Good men, the last wave by, crying how bright
Their frail deeds might have danced in a green bay,
Rage, rage against the dying of the light.

Wild men who caught and sang the sun in flight,
And learn, too late, they grieved it on its way,
Do not go gentle into that good night.

Grave men, near death, who see with blinding sight
Blind eyes could blaze like meteors and be gay,
Rage, rage against the dying of the light.

And you, my father, there on the sad height,
Curse, bless, me now with your fierce tears, I pray.
Do not go gentle into that good night.
Rage, rage against the dying of the light.

<https://soundcloud.com/dylanthomasofficial/do-not-go-gentle-into-that-1>

<https://poets.org/poem/do-not-go-gentle-good-night>